**Hysbysiadau Statudol 2022/2023**

Mae Datganiad o Gyfrifon Drafft 2022/2023 ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cael ei baratoi yn unol â Chodau Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon, Safonau Cyfrifyddu a darpariaethau Statudol perthnasol CIPFA. Fodd bynnag, nid yw'r Cyfrifon hyn wedi'u cwblhau na'u hardystio eto gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, ac nid yw Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi rhoi barn ar y Cyfrifon hyn erbyn 31 Gorffennaf 2023. Mae angen yr hysbysiad a ganlyn felly i gydymffurfio ag adran 10(2) (d) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014:

> Nid yw'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2022/2023 wedi'i gwblhau eto oherwydd datrysiad hirfaith i fater penodol yn ymwneud ag ailbrisio asedau sefydlog a'r potensial ar gyfer camddatganiad sylweddol o ddibrisiant yng nghyfrifon statudol 2021/2022.
>
> Felly nid yw'r archwiliad o'r Datganiadau o Gyfrifon 2022/2023 ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi'i gwblhau eto ac o ganlyniad ni ddarparwyd barn archwilio ar gyfer y Cyfrifon hyn.
>
> ar 31 Gorffennaf 2023 yn sylweddol anghywir ac yn gamarweiniol i'r defnyddiwr.
>
> Yn amodol ar gwblhau'r archwiliad, mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd datganiadau ariannol 2022/2023 yn cael eu hystyried i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio erbyn mis Tachwedd 2023.